Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

## Briff i'r sector: prentisiaethau

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Rhagair

O dan Adran 129 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae gan Medr gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ynghylch cynnwys dysgwyr ym mhroses benderfynu eu darparydd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr:

- gymryd rhan ym mhroses eu darparydd o wneud penderfyniadau perthnasol;
- cael cynrychiolaeth effeithiol i'w lleisiau ym mhroses benderfynu eu darparydd; ac
- rhoi eu barn ar yr addysg maen nhw'n ei derbyn a materion sy'n destun pryder, neu o ddiddordeb iddynt.

Cynhaliodd Medr ymgynghoriad ar ddrafft y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn nhymor yr hydref 2025, a chyhoeddi'r Cod terfynol ym mis Ebrill 2026. Mae'r Cod yn berthnasol i bob darparydd yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru: sefydliadau addysg bellach ac uwch, **darparwyr prentisiaethau**, darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, ac ysgolion sy'n cynnwys chweched dosbarth. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr prentisiaethau gydymffurfio â'r Cod o **1 Awst 2027**, fel amod yn gysylltiedig â chyllid.

Wrth inni ymgynghori a chynnal trafodaethau ehangach â'r sector trydyddol, gofynnodd darparwyr inni sicrhau bod y Cod yn cael ei deilwra i gyd-fynd â'r amrywiaeth eang iawn o sefydliadau a dysgwyr a geir yng ngwahanol rannau o'r sector. Rydym wedi datblygu'r briff hwn fel rhan o gyfres o ddeunyddiau cyfeiriol sy'n gosod y Cod yn ei gyd-destun ym mhob rhan o'r sector trydyddol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ymarferol ynghylch sut y gellir gweithredu'r cod a rhoi tystiolaeth ar ei gyfer mewn gwahanol leoliadau. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Cod ei hun, sy'n nodi gofynion penodol y mae'n rhaid i bob darparydd eu bodloni a'r dystiolaeth y mae'n rhaid ei darparu i Medr er mwyn dangos cydymffurfiaeth.

Byddwn yn parhau i adolygu'r briff hwn i adlewyrchu'r adborth gan ddysgwyr a darparwyr, ac i ychwanegu adnoddau ac enghreifftiau pellach wrth iddynt gael eu datblygu.

## Ar gyfer pwy mae'r briff hwn?

- Staff ac aelodau Bwrdd darparwyr prentisiaethau
- Prentisiaid gan gynnwys rhai mewn rolau cynrychioliadol fel cynrychiolwyr cwrs
- Cyflogwyr

## Cyd-destun y sector: Prentisiaethau

Prentisiaid yw gweithwyr sy'n gwneud y rhan fwyaf o'u dysgu yn y gweithle. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bosibl na fydd eu cyflogwr yn eu rhyddhau i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau ffurfiol i ymgysylltu â dysgwyr. Efallai mai'r prentis fydd yr unig brentis yn y gweithle, neu y bydd yn un o nifer fach o weithwyr, ac mai ychydig o gyfleoedd fydd iddo gwrdd â chyfoedion. Prif ddull y prentis o ymgysylltu â'i ddarparydd yw drwy ei asesydd, a'r asesydd fel arfer yw ei brif unigolyn cyswllt i roi adborth am ei brofiad dysgu, neu i rannu unrhyw bryderon.

Oherwydd hyn bydd angen i ddarparwyr deilwra eu dull o ymgysylltu â dysgwyr i fodloni anghenion dysgwyr. Gallai hyn olygu, er enghraifft, fforymau byrrach, llwyfannau digidol, amserlennu sesiynau y tu allan i oriau gwaith, a chydnabod amser a chyfraniadau dysgwyr (er enghraifft, drwy dystysgrifau neu fathodynnau digidol).

Nid yw'n ddisgwyliedig nac yn ofynnol gan Medr i ddarparwyr prentisiaeth gael undeb myfyrwyr neu gorff ffurfiol, parhaol cyfatebol i gynrychioli dysgwyr. Nid yw'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn diffinio mecanweithiau na strwythurau penodol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod ymgysylltu â dysgwyr yn llywio penderfyniadau a pholisïau strategol darparwyr ar lefel y sefydliad.

## Gofynion y Cod

Gofynion ar gyfer 2027 – 2028

- Cyn diwedd y flwyddyn academaidd, **rhaid** i ddarparwyr prentisiaethau gyhoeddi ymrwymiad i ymgorffori a chefnogi ymgysylltiad effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau
- **Rhaid** i hwn gydymffurfio ag egwyddorion Y Cod
- Tystiolaeth yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (Hydref 2028)

Gofynion o 2028 – 2029

- **Rhaid** i ddarparwyr prentisiaethau adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
- **Rhaid** i ddarparwyr prentisiaethau ddarparu tystiolaeth o effaith ymgysylltu â dysgwyr
- Tystiolaeth yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (o Hydref 2029)

Llywodraethu

- **Rhaid** i'r corff llywodraethu (neu'r corff cyfatebol) gadarnhau cydymffurfiaeth yn flynyddol
- Sicrwydd yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (o Hydref 2028)

Dysgwyr

- **Rhaid** i ddysgwyr gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r ymrwymiad
- **Rhaid** hyrwyddo'r ymrwymiad mewn ffyrdd sy'n hygyrch i ddysgwyr

Mae'n **rhaid** i'r ymrwymiad gynnwys:

- Sut y caiff ymgysylltu â myfyrwyr ei ymgorffori a'i gefnogi wrth wneud penderfyniadau
- Sut yr aeth unrhyw gorff sy'n cynrychioli dysgwyr ati i gyd-ddatblygu (adolygu) yr ymrwymiad
- Sut mae dysgwyr wedi cymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu (a'i adolygu)
- Sut y rhoddir ystyriaeth i farn dysgwyr amrywiol
- Pa ddysgwyr sydd wedi'u cynnwys

Lle bynnag y ceir corff sy'n cynrychioli dysgwyr (e.e. UM, cyngor, Senedd) **rhaid** i'r darparydd weithio mewn partneriaeth â'r corff hwnnw i:

- gyd-gynhyrchu'r ymrwymiad
- adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
- ei hyrwyddo mewn modd hygyrch ymhlith dysgwyr drwy sianelau cyrff cynrychioli darparwyr a dysgwyr

Lle bynnag y ceir corff sy'n cynrychioli dysgwyr **rhaid** i'r corff hwnnw lofnodi'r ymrwymiad i gadarnhau'r gofynion uchod mewn perthynas â gwaith partneriaeth.

## Yr ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr

Mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr weithio gyda'u dysgwyr i ddatblygu a chyhoeddi ymrwymiad i ymgorffori a chefnogi ymgysylltu effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, yn unol ag egwyddorion y Cod.

Bwriedir i'r ymrwymiad roi adlewyrchiad clir a gonest o ymgysylltiad presennol dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, yn hytrach na datganiad uchelgeisiol o fwriad, a dylid ei ddefnyddio fel offeryn gwella parhaus i gydnabod cryfderau, nodi meysydd i'w datblygu, a mynd i'r afael â bylchau.

**Rhaid** i ddarparwyr prentisiaethau sicrhau bod unrhyw bartneriaid, gan gynnwys aelodau consortiwm neu is-gontractwyr wedi'u cynnwys yn eu hymrwymiad, a bod gwaith monitro'r ymrwymiad yn cynnwys darpariaeth wedi'i his-gontractio.

Os yw coleg yn brif ddarparydd ar gyfer prentisiaethau, **rhaid** iddo sicrhau bod prentisiaid yn cael eu hintegreiddio'n briodol i'w ymrwymiad a'i ddull cyffredinol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr. Nid yw Medr yn disgwyl i golegau baratoi ymrwymiad ar wahân ar gyfer darpariaeth prentisiaethau ond bydd yn disgwyl gweld tystiolaeth bod prentisiaid yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u rhaglenni a'u profiadau.

Efallai y bydd darparwyr am ddefnyddio eu hymrwymiad i nodi'n glir pa destunau a phenderfyniadau sydd o fewn cwmpas yr hyn y gall y darparydd, yn hytrach na'r cyflogwr, ddylanwadu arno a'i reoli.

Nid yw Medr yn manylu'n benodol ar strwythur na ffurf yr ymrwymiad, ac mae'n cynghori y dylai fod ar y ffurf sy'n fwyaf priodol i bob darparydd neu gonsortiwm a'i ddysgwyr. Gall hyn gynnwys enghreifftiau symlach neu fwy gweledol o ymgysylltu â dysgwyr, gyda dolenni i ddogfennau ysgrifenedig mwy ffurfiol lle bo angen er mwyn bodloni gofynion y Cod.

## Gall darparwyr prentisiaeth ymgysylltu â dysgwyr yn effeithiol drwy:

- Ddarparu gwybodaeth glir i ddysgwyr yn ystod y cyfnod sefydlu am eu hawliau, sut y gallant fynegi barn, rhannu pryder neu wneud cwyn.
- Darparu dulliau i ddysgwyr gymryd rhan mewn penderfyniadau a rhoi adborth yn annibynnol ar eu cyflogwr a'u hasesydd.

- Sicrhau bod dysgwyr yn gallu rhannu materion sensitif yn gyfrinachol
- Casglu, dadansoddi ac ymateb i farn dysgwyr mewn modd systematig er mwyn creu darlun cyffredinol, gan gynnwys adborth a gesglir drwy adolygiadau cynnydd a mathau eraill o ymgysylltu rhwng dysgwyr ac aseswyr unigol
- Sicrhau bod strwythurau ar waith i aseswyr gasglu barn, pryderon ac awgrymiadau dysgwyr, porthi'r rhain i brosesau sicrhau ansawdd, ac uwchgyfeirio unrhyw bryderon
- Ymgorffori trefniadau i ymgysylltu â dysgwyr wrth gynllunio a gwerthuso penderfyniadau sefydliadol sy'n effeithio ar brofiad y dysgwr (gweler yr enghreifftiau o benderfyniadau isod)
- Ystyried dulliau priodol o gynnwys dysgwyr gyda'i gilydd mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, fel llwyfannau digidol, fforymau neu grwpiau ffocws; gallai'r rhain fod yn strwythurau sefydlog neu gael eu cynnal ar sail ad hoc, yn dibynnu ar y mathau o benderfyniadau a wneir ac anghenion dysgwyr.
- Ystyried sut i ymgorffori strwythurau cynrychioli ar lefel cyflogwyr, os oes digon o brentisiaid, fel bo modd i ddysgwyr gefnogi'r naill a'r llall a chasglu cyd-safbwyntiau a mewnbwn i lywio penderfyniadau.
- Rhoi hyfforddiant ac arweiniad i unrhyw ddysgwyr sydd â rôl gynrychioliadol
- Sicrhau bod eu huwch dîm arwain, y Bwrdd (os yn berthnasol), ac unrhyw grwpiau neu bwyllgorau perthnasol yn cynnwys ymgysylltu â dysgwyr a llais y dysgwr fel eitem sefydlog mewn cyfarfodydd
- Cofnodi a monitro'n ffurfiol y newidiadau a'r gwelliannau a wnaed mewn ymateb i farn dysgwyr
- Cael mecanweithiau i egluro wrth ddysgwyr sut mae eu barn wedi effeithio ar benderfyniadau ac wedi dylanwadu ar arferion y darparydd

**Gallai enghreifftiau o "benderfyniadau perthnasol" ar gyfer prentisiaid gynnwys:**

- Dewis, profi, gweithredu a gwerthuso meddalwedd a ddefnyddir gan ddysgwyr, fel e-bortffolios
- Datblygu ac adolygu polisi cwynion y darparydd
- Datblygu ac adolygu strategaeth y darparydd ar gyfer asesu a chyflwyno sgiliau hanfodol
- Cydlynu gweithgareddau hyfforddi yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.
- Adolygu'r cyfleoedd a'r adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael
- Datblygu a gweithredu polisïau ar gymorth a llesiant dysgwyr

## Dolenni ac adnoddau defnyddiol

Mae Medr yn ariannu Elusen Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) i gefnogi ymgysylltu â dysgwyr a llais y dysgwr yn y sector prentisiaethau. Dylai darparwyr fanteisio ar adnoddau a ariennir gan Medr i ymgorffori a chefnogi ymgysylltu effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau.

I lywio datblygiad y briff hwn, comisiynodd Medr Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru i gynnal grwpiau ffocws â phrentisiaid. Ceir crynodeb o'r canlyniadau ynghlwm yn **Atodiad A**.

## Cysylltu â ni

ymgysylltuadysgwyr@medr.cymru

# Atodiad A

## Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr: Mewnwelediadau o'r grwpiau ffocws prentisiaid

Yn rhan o'i ymgynghoriad ar y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, comisiynwyd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) Cymru gan Medr i gynnal grwpiau ffocws gyda phrentisiaid. Ceir crynodeb isod o'r adborth a gafwyd, ac fe'i defnyddiwyd i lywio datblygiad briff y sector prentisiaethau i gyd-fynd â'r Cod.

Yn ogystal â darparu rhywfaint o adborth cychwynnol er mwyn helpu i lywio gweithrediad y Cod o fewn y sector prentisiaethau, roedd y grwpiau ffocws yn gweithredu fel peilot er mwyn helpu i brofi dulliau effeithiol o gynnwys prentisiaid o fewn system drydyddol sydd wedi'i rheoleiddio o'r newydd. Y sesiynau hyn yw'r cam cyntaf tuag at sefydlu llais y dysgwr sy'n gyson a chynaliadwy ac a fydd yn llywio gwaith Medr dros amser.

Nid bwriad y grwpiau ffocws oedd creu darlun cynrychioliadol o brofiadau prentisiaid, na mesur effeithiolrwydd trefniadau ymgysylltu â dysgwyr o fewn eu darparwyr penodol, ond rhoi mewnwelediadau cryno i ddealltwriaeth prentisiaid o ymgysylltu, a'r hyn yr hoffent ei weld.

### Methodoleg

Cynhaliwyd dau grŵp ffocws ar-lein ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025, ac roedd cyfanswm o 16 o brentisiaid yn bresennol yn y grwpiau hynny. Roedd y cyfranogwyr wedi ymrestru ag amrywiaeth o sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant annibynnol, ac yn dilyn rhaglenni rhwng Lefel 2 a Lefel 5. Er mwyn helpu i recriwtio cyfranogwyr a diolch iddynt am eu hamser, rhoddwyd taleb gwerth £25 i bawb a oedd yn bresennol.

Bu UMC Cymru yn gweithio gyda Medr i ddylunio cwestiynau ynghylch profiadau prentisiaid o ymgysylltu â dysgwyr, gan gynnwys:

- Sut mae ymgysylltu 'da' yn edrych ac yn teimlo iddyn nhw.
- Pa mor wybodus y maent yn teimlo fel dysgwyr ynghylch cyfleoedd i ymgysylltu
- Ble maen nhw'n mynd i gael cymorth neu adborth
- Beth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael gwrandawiad
- Sut yr hoffent ymgysylltu a chael llais yn y dyfodol

### Trosolwg o fewnwelediadau'r ymchwil

- Adroddir bod ymgysylltiad â phrentisiaid ar ei gryfaf ar lefel yr asesydd unigol, sy'n cynnig dull effeithiol o ymdrin â phroblemau sydd angen sylw ar unwaith ac o feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol. Ceir cyfle i gryfhau hyn ymhellach drwy fecanweithiau ar lefel darparydd sy'n cynnig dull cyson a thryloyw o ymgysylltu â dysgwyr ar draws y sefydliad.
- Er bod prentisiaid ar y cyfan yn teimlo'n gyfforddus wrth rannu eu hadborth â'u haseswyr, mae rhai ohonynt yn llai sicr ynghylch llwybrau adborth eraill, y defnydd o adborth, neu'r trefniadau i gyfathrebu ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio ar

eu dysg. Gallai gwneud y prosesau hyn yn fwy gweladwy fod o gymorth i wneud i brentisiaid deimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth ac wedi'u cynnwys yn well.

- Gallai darparwyr sefydlu myfyrwyr yn well drwy roi eglurhad clir o'r gwahanol ffyrdd y gall prentisiaid roi adborth, rhannu pryderon, a chael mynediad at lwybrau uwchgyfeirio lle bo angen, gan gynnwys sefyllfaoedd sy'n ymwneud â'u hasesydd.
- Gall sefydlu a hyrwyddo llwybrau uwchgyfeirio clir helpu i gryfhau hyder prentisiaid yng ngallu darparwyr i ymateb a bod yn atebol.
- Mewn rhai achosion, bydd prentisiaid yn troi at eu cyflogwyr am gymorth i ddatrys problemau'n gysylltiedig â'u darparydd. Gallai darparu prosesau wedi'u harwain gan ddarparwyr, y ceir dealltwriaeth dda ohonynt, helpu i sicrhau profiad mwy cyson i bob prentis.
- Dylai darparwyr hefyd gynnig mecanweithiau diogel i rannu pryderon sensitif neu gyfrinachol, gan roi hyder i brentisiaid y gellir ymdrin â phroblemau heb i hynny arwain at unrhyw ganlyniadau negyddol.

## Y prif themâu

### Cael y gorau o'r berthynas 1 wrth 1 ag aseswyr

Roedd cyfranogwyr yn gyson yn disgrifio cyfarfodydd cyswllt strwythuredig â'u hasesydd fel eu prif ddull o gyfathrebu, o roi adborth ac o gael cefnogaeth.

Byddai aseswyr yn cael eu disgrifio'n eang fel unigolion hawddgar ac ymatebol sy'n deall pwysau'r gweithle.

Ar lefel unigol, mae ymgysylltu dan arweiniad aseswyr yn effeithiol ac yn cael ei werthfawrogi, yn enwedig er mwyn cael cefnogaeth fugeiliol a datrys problemau lleol.

Er bod y berthynas yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr, roedd y cyfranogwyr yn cydnabod y gallai cyfyngiadau godi pe bai'r berthynas yn methu, neu'r asesydd heb weddu i'r dysgwr.

### Dulliau o roi adborth

Dywedodd cyfranogwyr fod eu hymgysylltiad yn digwydd i raddau helaeth neu'n gyfan gwbl ar lefel asesydd, gydag ychydig o ryngweithio rhwng prentisiaid a'r darparydd y tu hwnt i'r berthynas honno.

Adroddodd prentisiaid fod ganddynt frith gof o'r wybodaeth a ddarparwyd wrth sefydlu ynghylch hawliau dysgwyr, prosesau adborth a llwybrau i rannu pryderon, sy'n arwydd bod lle i gryfhau a phwysleisio'r negeseuon hyn drwy gydol taith y dysgwr.

Dywedwyd bod gan blatfformau digidol ran ganolog i'w chwarae er mwyn ymgysylltu â darparwyr, a nodwyd cyfleoedd i wella defnyddioldeb a hygyrchedd y systemau hyn, ac i lywio drwyddynt, er mwyn gwella ymgysylltiad a phrofiadau dysgwyr.

Nododd ambell gyfranogwr eu bod wedi derbyn arolygon gan ddarparwyr, ond ni ofynnwyd i'r rhan fwyaf ohonynt roi'r math hwn o adborth i'w darparydd.

### Cymryd rhan mewn penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd

Adroddodd cyfranogwyr nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o gymryd rhan mewn penderfyniadau ac nad oeddent ar y cyfan yn ymwybodol o gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch eu haddysg.

Roedd y diddordeb mewn cymryd mwy o ran yn amrywio, gan adlewyrchu

### Dolenni adborth a llwybrau uwchgyfeirio

Er bod cyfranogwyr yn rhoi adborth yn rheolaidd yn ystod adolygiadau aseswyr, roedd llawer yn ansicr ynghylch sut y caiff adborth ei adolygu y tu hwnt i lefel yr asesydd neu sut mae'n llywio penderfyniadau ar raddfa'r darparydd. Mae hyn yn tynnu sylw at gyfle i gynyddu tryloywder ynghylch prosesau a chanlyniadau adborth.

Nid oedd rhyw lawer o ymwybyddiaeth ynghylch sut i roi adborth ar lefel y darparydd, na sut i gymryd rhan mewn penderfyniadau a oedd yn

dewisiadau gwahanol y dysgwyr a faint o gapasiti ac amser oedd ar gael iddynt.

Mynegodd cyfranogwyr fod prinder llefydd i rannu profiadau â phrentisiaid eraill neu i archwilio heriau cyffredin gyda'i gilydd.

effeithio ar eu prentisiaeth (er enghraifft: pryderon ynghylch dyddiadau cau asesiadau, strwythur a chyflwyniad cyrsiau, a systemau digidol).

Roedd dyhead clir hefyd am ddulliau cyfrinachol a dienw o rannu pryderon.

### Beth yw nodweddion ymgysylltu da o safbwynt prentisiaid

Roedd y cyfranogwyr yn glir y dylai ymgysylltu effeithiol fod yn syml, yn dryloyw ac yn ystyrlon. Pwysleisiwyd pwysigrwydd llinellau cyfathrebu clir, ymwybyddiaeth well o adborth a llwybrau uwchgyfeirio, ac atebolrwydd gweladwy drwy gau'r ddolen adborth.

Byddai cyfleoedd i gysylltu â chymheiriaid yn werthfawr i gyfranogwyr.

Dylai trefniadau i ymgysylltu fod yn gymesur, gan gydnabod bod prentisiaid yn brin o amser. Dylid parhau i ddatrys materion lleol, unigol yn gyflym drwy aseswyr, ond mae prentisiaid am gael y gallu i ymgysylltu y tu hwnt i'r lefel hon lle bo angen.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government